Annwyl Gynghorydd Jones

Yn dilyn fy e-bost dyddiedig 13 Mai 2015, rwyf bellach mewn sefyllfa i allu ateb eich cais am wybodaeth dyddiedig 11 Mai 2015, a oedd fel a ganlyn:

**Mae Cyngor Wrecsam yn honni bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi dweud wrthynt nad ydynt yn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, o ran cydbwysedd gwleidyddol ac maent yn defnyddio hyn fel esgus dros newid y dull o lywodraethu o Fwrdd Gweithredol gwleidyddol gytbwys i system Gabinet.**

**Rwyf felly'n gwneud cais am gopïau o unrhyw lythyrau, negeseuon e-bost, neu eraill electronig neu fel arall sydd yn eich meddiant yn ymwneud â'r pwnc uchod.**

Mae gennym y wybodaeth a atodir sydd yn cyfateb i ddisgrifiad eich cais. Mae'n rhan o nodyn mewnol yn ymwneud â chyfarfod a gawsom gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 19 Tachwedd 2014.

Nid wyf wedi defnyddio unrhyw esemptiadau, ond os dymunwch gwyno ynglŷn â'r modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi anfon e-bost neu lythyr ataf.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Ian Phillips